Enw _____

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd 18: 1-2 & 16-46

ADNOD ALLWEDDOL
1 Brenhinoedd 18: 39

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod hon.

Stori 3 Elias yn gwasanaethu Duw

Doedd dim glaw am dros dair blynedd. Doedd y cnydau ddim yn tyfu ac roedd y glaswellt yn gwywo. Roedd yr anifeiliaid yn marw. Un diwrnod, dywedodd Duw wrth Elias am fynd i weld y Brenin Ahab. Dywedodd y brenin mai Elias oedd wedi achosi'r holl drafferth.
"Nid fy mai i yw e," meddai Elias. "Ti, y brenin Ahab, sydd wedi achosi'r drafferth. Rwyt ti wedi torri rheolau Duw ac wedi addoli duw ffug o'r enw Baal."

C Atebwch y cwestiynau isod:-

1. Am faint o amser doedd dim glaw? _____ blynedd

2. Dywedodd y Brenin Ahab mai ar hwn oedd y bai. E __ __ __ __

3. Pwy oedd wedi torri rheolau Duw? A __ __ __

Penderfynodd Elias ei bod yn bryd dangos i'r bobl mai dim ond un gwir Dduw sydd. Dywedodd wrth y Brenin am ddod â phroffwydi Baal gydag ef i Fynydd Carmel. Yno, bydden nhw'n codi dwy allor, un i Baal ac un i'r Arglwydd. Yna, bydden nhw'n rhoi bustach yn aberth ar y ddwy allor. Byddai proffwydi Baal yn gweddïo ar eu duw nhw a byddai Elias yn gweddïo ar yr Arglwydd. Pe bai tân yn dod o'r Nef ac yn llosgi aberth Baal, bydden nhw'n gwybod mai Baal oedd y gwir Dduw. Ar y llaw arall, pe bai tân yn llosgi aberth yr Arglwydd, bydden nhw'n gwybod mai'r Arglwydd oedd y gwir Dduw.

C **Rhowch gylch o gwmpas y gair CYWIR sydd rhwng y cromfachau:-**

1. Adeiladwyd **(tair, dwy, pedair)** allor o **(goed, wair, gerrig)**

2. Rhoddwyd **(oen, gafr, bustach)** ar bob allor.

3. Roedden nhw eisiau gweld ai Baal ynteu'r Arglwydd fyddai'n ateb trwy anfon **(tân, glaw, daeargryn)**

8

Pan oedd proffwydi Baal yn barod, ddechreuon nhw weiddi ar Baal. Buon nhw'n gweiddi am oriau ond chawson nhw ddim ateb. Yna, dyma nhw'n gweiddi'n uwch ac yn dechrau neidio o gwmpas yr allor ond ddaeth dim tân.
Yna, daeth tro Elias. Pan oedd ei allor ef yn barod, gofynnodd i'r bobl arllwys 12 llond llestr o ddŵr drosti. Yna, gweddïodd yn dawel ar yr Arglwydd ac anfonodd yr Arglwydd dân i losgi'r cyfan oedd ar yr allor a hyd yn oed y dŵr oedd o'i chwmpas.

C **Ysgrifennwch y geiriau hyn ger yr allor gywir.**



gweiddi'n uchel dŵr **dim tân** **tân**

4

Pan welodd y bobl beth a ddigwyddodd, dyma nhw'n plygu i lawr ac yn dweud:

2

"Yr Arglwydd sydd Dduw"

Lliwiwch y geiriau.

Roedd hyn yn newyddion da i Dduw ac Elias. Dechreuodd llawer o bobl addoli'r Arglwydd eto a throi eu cefn ar y duwiau ffug. Ar ddiwedd y dydd, dechreuodd fwrw glaw yn drwm. Roedd y sychder wedi dod i ben. Mae llawer o bobl yn addoli 'duwiau ffug' heddiw. Ydych chi eisiau addoli'r Duw go iawn? Gall ei Fab Ef, Iesu Grist, fod yn ffrind ac yn waredwr i chi.